**Kirsty Williams AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg**
**Cabinet Secretary for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

SeneddMCD@cynulliad.cymru

12 Hydref 2018

Annwyl Mick,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Hydref yn gofyn am esboniad ynghylch pam nad oedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar fenthyciadau ar gyfer graddau ddoethurol, na chrynodeb o'r ymatebion hynny, yn ymddangos yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) (Rhif 3) 2018, a pham y cyhoeddwyd crynodeb ar ôl gwneud y rheoliadau

Mae cymorth i fyfyrwyr, ar ffurf benthyciad, ar gael o flwyddyn academaidd 2018/19 ymlaen gan Weinidogion Cymru i'r myfyrwyr hynny, ymhlith eraill, sydd fel arfer yn preswylio yng Nghymru ac sy'n dechrau ar raglenni gradd ddoethurol. Gwnaed Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018 (OS 2018/656) ("y Rheoliadau Benthyciadau") ar 23 Mai 2018 a daethant i rym ar 25 Mehefin 2018.

Daeth y Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Diwygio) (Rhif 3) 2018 (OS 2018/810) ("y Rheoliadau Ad-dalu"), a wnaed ar 2 Gorffennaf 2018, i rym ar 28 Gorffennaf, ac maent yn darparu ar gyfer ad-dalu'r benthyciadau ar gyfer graddau ddoethurol.

Ymgynghorwyd ar y polisi ar fenthyciadau ar gyfer graddau ddoethurol, gan gynnwys y cynlluniau ar gyfer ad-dalu'r benthyciadau hynny, rhwng 8 Rhagfyr 2017 a 2 Mawrth 2018. Roedd y Memorandwm Esboniadol a ddaeth gyda'r Rheoliadau Benthyciadau yn nodi rhestr o randdeiliaid a gafodd wahoddiad i ymateb i'r ymgynghoriad, y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad a chrynodeb o'r ymatebion hynny. Roedd y Memorandwm Esboniadol hwnnw hefyd yn esbonio nad oedd fawr o newid i'r polisi fel ag yr oedd yn y papur ymgynghori.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y dylai’r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau Ad-dalu fod wedi manylu mwy ar yr ymgynghoriad, er gwaetha’r cysylltiad agos rhwng y Rheoliadau Benthyciadau a’r Rheoliadau Ad-dalu, a’r ymgynghoriad unigol a gynhaliwyd cyn gwneud y ddwy set o reoliadau.

Mae Llywodraeth Cymru'n anelu at gyhoeddi crynodeb o’r ymatebion cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol. Gwnaed y ddwy set o reoliadau (y Rheoliadau Benthyciadau a’r Rheoliadau Ad-dalu) yn ôl amserlen dynn iawn er mwyn sicrhau bod deddfwriaeth briodol yn ei lle fel bod myfyrwyr sy’n preswylio fel arfer yng Nghymru yn gallu cael gafael ar fenthyciadau at radd ddoethurol ar gyfer blwyddyn academaidd 2018. Roedd cymorth tebyg ar gael gan Lywodraeth y DU i fyfyrwyr sy’n preswylio yn Lloegr fel arfer. Roedd Llywodraeth Cymru'n ystyried bod sicrhau nad oedd myfyrwyr o Gymru o dan anfantais yn fater brys. Er bod crynodeb o’r ymgynghoriad wedi’i gynnwys yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau Benthyciadau, mae Llywodraeth Cymru'n derbyn y byddai’n well petai’r crynodeb manwl o ymatebion i’r ymgynghoriad wedi cael ei gyhoeddi’n gynt.

Rwy’n gobeithio bod hyn yn ateb eich cwestiwn.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education